

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Rhif: 70/2014



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru 2013 - Diwygiedig

Adroddiad ar gyfer Croeso Cymru

Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth yng Nghymru - 2013

Ymchwil ar ran Croeso Cymru

Sarah McDonough, Beaufort Research Cyf.

beaufortresearch

30 years of intelligent research

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd barn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Ella Hastings

Uwch Swyddog Ymchwil

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Canolfan QED, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 5YR

Ffôn: 0300 061 6038

E-bost: ella.hastings@wales.gsi.gov.uk

ISBN: 978-1-4734-1779-3

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 23 Medi 2014

© Hawlfraint y Goron 2014

Rhestr o acronymau a sut i ddarllen y tablau.....	1
Crynodeb gweithredol	3
i. Ymweliadau 2013	3
ii. Ymweliadau 2012 - 2013	3
iii. Gweithrediadau.....	4
iv. Proffil ymwelwyr	5
1. Cyflwyniad	6
1.1 Cefndir	6
1.2 Diffiniad o atyniad twristiaeth	6
1.3 Amcanion.....	7
1.4 Cefndir economaidd a hinsoddol 2013.....	7
2. Methodoleg.....	8
2.1 Cynnal y gwaith ymchwil.....	8
2.2 Dosbarthu'r arolwg a chyfraddau ymateb.....	8
3. Y deg atyniad uchaf am ddim ac â thâl (yn ôl nifer yr ymweliadau)	10
3.1 Y deg atyniad uchaf â thâl.....	10
3.2 Y deg uchaf o ran atyniadau lle ceir mynediad am ddim.....	11
4. Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth 2013/2012.....	12
4.1 Cymariaethau cyffredinol	12
4.2 Cymharu ymweliadau misol 2013 / 2012	16
4.3 Cymharu ymweliadau chwarterol 2013 / 2012	20
4.4 Cymharu tâl mynediad atyniadau â thâl.....	23
5. Ymweliadau 2013	24

6.	Gweithrediadau	33
6.1	Symudiad mewn referniw gros	33
6.2	Referniw cyfartalog yn ôl ymwelydd 2013 (£).....	36
6.3	Cyflogaeth 2013	40
6.4	Gwariant ar farchnata 2013 / 2012.....	44
6.5	Gwasanaethau iaith	45
6.6	Gwelliannau / uwchraddio 2013.....	47
7.	Proffil ymwelwyr 2013.....	48
8.	Atyniadau a ymatebodd yn 2013 (yn nhrefn yr wyddor).....	52
	Atodiadau	55

Llythyrau amgaeedig (llythyr rhagarweiniol a llythyr atgoffa)
Holiadur

Nodyn diwygio:

Mae'r data ar gyfer Eglwys Gadeiriol Tyddewi wedi ei ddiwygio ac mae yn effeithio ar nifer o ffigurau trwy gydol yr adroddiad. Ffigurau diwygiedig ar 23 Medi, 2014.

Rhestr o acronymau a sut i ddarllen y tablau

Hoffai Croeso Cymru a Beaufort Research ddiolch i'r holl gynrychiolwyr a gweithredwyr yn y sector atyniadau a roddodd wybodaeth ar gyfer yr arolwg y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arno. Heb eu cymorth bob blwyddyn, ni fyddai'n bosibl casglu'r ffigurau hyn.

Amcangyfrifon / ffigurau ymweliadau heb fod ar gael

Mae'r ffigurau a nodir yn yr adroddiad hwn wedi'u nodi gyda phob ewyllys da ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan berchnogion yr atyniadau.

Os amcangyfrifwyd ffigurau ymwelwyr gan weithredwyr, nodir hyn gyda seren (*) yn dilyn nifer yr ymweliadau yn y tablau yn 2013 a 2012, ar ddiwedd yr adroddiad.

Mynediad

Os oes gan atyniad dâl mynediad, nodir y tâl mynediad i oedolyn ar gyfer tymor prysur 2013. Os nad yw'n hysbys, gadewir y tâl mynediad yn wag.

Talfyriadau

CATEGORI	ACRONYM	EGLURHAD
Rhanbarthau	M	Canolbarth Cymru
	N	Gogledd Cymru
	SE	De-ddwyrain Cymru
	SW	De-orllewin Cymru
Perchenogaeth	Cadw †	*Cadw (Henebion Cymru)
	G	Llywodraeth (asiantaeth / cangen o'r llywodraeth e.e. Awdurdod Parciau Cenedlaethol, Addysg, Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru ac ati.)
	LA	Awdurdod Lleol
	NT †	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
	PO	Perchenogaeth breifat (perchnogion preifat unigol, sefydliad / ymddiriedolaeth ac ati.)
Atyniadau twristiaeth	HP	Eiddo hanesyddol, cestyll, caerau, tai hanesyddol, llysoedd, henebion hanesyddol, safleoedd archeolegol, eiddo hanesyddol arall, canolfannau treftadaeth, addoldai
	Thema	Parciau hamdden, parciau thema
	MAG	Amgueddfeydd a / neu oriolau celf, canolfannau gwyddoniaeth, canolfannau technoleg
	IND	Atyniad diwydiannol / crefft
	CP	Parc gwledig, gardd, atyniad naturiol arall
	WL	Atyniad bywyd gwylt
	R/T	Rheilffordd / tramffordd
Lleoliad	C	Arfordirol
	R	Gwledig
	U	Trefol
Math o gyflogai	FT	Llawn amser
	PT	Rhan-amser
	UV	Gwirfoddolwr di-dâl

†Dim ond gan sefydliadau o'r fath y gall atyniadau yng nghategoriâu perchenogaeth CADW neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol gael eu rheoli.

Drwy gydol yr adroddiad, nodir samplau o ddeg neu lai gyda seren (*) i nodi bod angen cymryd gofal wrth edrych ar y canlyniadau.

i. Ymweliadau 2013

- Roedd 12.91 miliwn o ymweliadau i'r atyniadau yn Nghymru, a wnaeth gymryd rhan yn yr arolwg yn 2013: mae ymweliadau ag atyniadau am ddim yn cyfrif am 66.7% o'r holl ymweliadau (8.61 miliwn), tra bod ymweliadau ag atyniadau â thâl yn cyfrif am 33.3% (4.30 miliwn).
- Gan fod y rhan fwyaf o'r atyniadau mawr yn cymryd rhan yn yr arolwg, amcangyfrifir fod cyfanswm yr ymweliadau a gofnodwyd yn cyfri ymhell dros 80% o gyfanswm yr ymweliadau i bob atyniad yng Nghymru. Ymhlith yr holl atyniadau a ymatebodd i'r arolwg, roedd y 13 a oedd wedi nodi 200,000 neu fwy o ymwelwyr yn cyfrif am 43.6% o'r holl ymweliadau a gofnodwyd yn 2013.
- Atyniadau yn Ne-ddwyrain Cymru gafodd y gyfran fwyaf o ymweliadau (38.6%) a Chanolbarth Cymru gafodd y gyfran leiaf (6.2%).
- Cafodd pob atyniad a ymatebodd i'r arolwg 74.65k o ymweliadau ar gyfartaledd yn 2013: cynyddodd y ffigur hwn i 106.34k yn Ne-ddwyrain Cymru, a gostyngodd i 28.62k yng Canolbarth Cymru.
- Amgueddfeydd/orielau celf gafodd y gyfran fwyaf o ymweliadau o bell ffordd yn gyffredinol (37.7%), ac atyniadau diwydiannol/crefft gafodd y gyfran leiaf (3.8%).
- Atyniadau dan berchenogaeth breifat a oedd yn cyfrif am y rhan fwyaf (42.6%) o'r ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru yn 2013 (3.0 miliwn o ymweliadau ag atyniadau am ddim a 2.5 miliwn o ymweliadau ag atyniadau â thâl).

ii. Ymweliadau 2012 – 2013

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar dueddiadau yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru, gan gymharu ffigurau ymweliadau ar gyfer 2013 a 2012. Dim ond â'r atyniadau hynny a ddarparodd ddata ar gyfer y **ddwy flwyddyn** y mae a wnelo'r adran hon.

- Gwelwyd cynnydd o 0.4% yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru rhwng 2012 a 2013, o 10.85 miliwn i 10.88 miliwn.
- Gwelwyd cynnydd o 18.5% yn nifer yr ymwelwyr ag atyniadau am ddim (2.33 miliwn i 2.75 miliwn). Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad o 4.6% yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau â thâl (8.53 miliwn i 8.13 miliwn).

- Gwelodd Gogledd Cymru a De Orllewin Cymru gynnydd yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau (rhai â thâl a rhad ac am ddim) cynyddu yn 2013 o gymharu â 2012 (+1.4% a +1.3% yn y drefn honno). Mewn rhanbarthau eraill, gostyngodd nifer yr ymwelwyr.
- Parciau gwledig welodd y cynnydd mwyaf yn nifer yr ymweliadau rhwng 2012 a 2013 (+11.2%) tra gwelwyd gostyngiad amlwg (-21.0%) yn yr ymweliadau ag atyniadau diwydiannol/crefft.
- Mae atyniadau am ddim yn llai agored i amrywiadau tymhorol yn nifer yr ymwelwyr o gymharu ag atyniadau â thâl; tra gwelir y nifer fwyaf o ymweliadau ag atyniadau ym mis Gorffennaf ac Awst (felly hefyd ymweliadau ag atyniadau â thâl), mae'r gwahaniaethau misol ar gyfer gweddill y flwyddyn yn llai amlwg na'r rhai ar gyfer atyniadau â thâl.
- Mae atyniadau thema yn apelio i ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn. I'r gwrthwyneb, ceir mwy o amrywiad tymhorol yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau diwydiannol/crefft a rheilffyrdd/tramffyrdd, gyda C3 yn cyfrif am tua hanner yr ymweliadau blynyddol â'r atyniadau hynny.
- Gwelwyd cynnydd o 2.1% yn y tâl mynediad cyfartalog i oedolyn yn 2013 i £7.25 (o £7.05 yn 2012); mae prisiau mynediad i blant wedi aros yn ddigyfnewid.

iii. Gweithrediadau

- O gymharu'r wybodaeth am referniw gros a roddwyd gan yr atyniadau a ymatebodd yn 2012 a 2013, mae'r sefyllfa'n llawer mwy cadarnhaol eleni, er gwaethaf lleihad cyffredinol yn nifer yr ymwelwyr. Yn 2013, dywedodd chwarter yr atyniadau fod eu referniw gros wedi gostwng yn ystod y 12 mis diwethaf; gostyngiad o'r 50.7% o atyniadau a ddywedodd yr un peth yn 2012. At hynny, cofnododd 37.8% gynnydd mewn referniw gros (o gymharu â 26.9% yn 2012).
- Gwelwyd cynnydd cyfartalog cyffredinol o 3.4% mewn referniw yn 2013, o gymharu â gostyngiad cyffredinol o 2.8% yn 2012. Atyniadau bywyd gwyllt gofnododd y cynnydd mwyaf (+26.6%): mae'r ffigur hwn yn sylweddol uwch na'r cynnydd o 1.0% a gofnodwyd yn 2012.
- Y referniw cyfartalog a gynhyrchwyd ar draws pob math o wariant a phob math o atyniad oedd £3.01 fesul ymwelydd (£1.27 ymhlith atyniadau am ddim a £5.39 ymhlith atyniadau â thâl).
- Yn gyffredinol, atyniadau yng Nghanolbarth Cymru sy'n cynhyrchu'r referniw cyfartalog mwyaf fesul ymwelydd (£4.48) a'r rhai yn Ne Cymru sy'n cynhyrchu'r referniw cyfartalog lleiaf (£2.00). O edrych ar hyn yn ôl atyniadau am ddim ac atyniadau â thâl, mae atyniadau am ddim yn Ne-ddwyrain Cymru yn cynhyrchu'r referniw mwyaf fesul ymwelydd (£1.74) o gymharu â dim ond 68c yn Ne-orllewin Cymru. Atyniadau â thâl yng Nghanolbarth Cymru sy'n cynhyrchu'r referniw mwyaf fesul ymwelydd (£8.65) o gymharu â £4.06 yn Ne-orllewin Cymru.

- Gwirfoddolwyr di-dâl sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf o gyflogeion yn y sector (45.8%): mae 28.4% ohonynt yn barhaol a 17.4% yn dymhorol. Mae atyniadau thema a rheilffyrdd/tramffyrdd yn dueddol o gyflogi staff parhaol, tra bod eiddo hanesyddol ac atyniadau diwydiannol/crefft yn dueddol o gyflogi staff tymhorol.
- Ers 2012, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y gwirfoddolwyr di-dâl parhaol a'r staff rhan-amser parhaol sy'n gweithio yn y sector (+78.1% a +49.3% yn y drefn honno). Fodd bynnag, mae nifer y gweithwyr rhan-amser tymhorol a'r gwirfoddolwyr di-dâl wedi gostwng (-28.8% a 58.2% yn y drefn honno).
- Er na wnaeth y rhan fwyaf o atyniadau gynyddu eu gwariant ar farchnata yn 2013 o gymharu â 2012 (68.2%), adroddodd un o bob pump (20.0%) eu bod wedi gwneud hynny. Gwnaeth tua un o bob deg (11.8%) wario llai ar farchnata yn 2013 o gymharu â 2012.
- Aeth tua thraean (36.6%) o atyniadau ati i wneud gwelliannau/uwchraddio yn 2013 (gostyngiad o 44.8% yn 2012). Y gwariant cyfartalog ar hyn oedd £68.2k.

iv. Proffil ymwelwyr

- Ar gyfer pob math o atyniad, roedd y rhan fwyaf o ymwelwyr yn oedolion (72.0%): eiddo hanesyddol sy'n cael y gyfran fwyaf o ymwelwyr sy'n oedolion (79.5%), ond atyniadau bywyd gwyllt sy'n cael y gyfran fwyaf o ymwelwyr sy'n blant (37.3%).
- Mae tua hanner yr ymwelwyr ag atyniadau yng Nghymru yn byw yng Nghymru (51.2%); mae parciau gwledig ac amgueddfeydd/orielau celf yn dueddol o gael cyfran uwch na'r cyfartaledd o ymwelwyr lleol (59.4% a 59.3% yn y drefn honno).
- Mae dau o bob pum ymwelydd ag atyniadau yng Nghymru yn byw yng ngweddill y DU (38.9%), tra bod un o bob deg (9.9%) yn byw dramor. Mae rheilffyrdd/tramffyrdd yn denu cyfran lawer uwch na'r cyfartaledd o ymwelwyr o'r DU (76.0%), tra bod eiddo hanesyddol yn denu cyfran uwch na'r cyfartaledd o ymwelwyr dramor (17.3%).
- Yn gyffredinol, mae ymweliadau gan blant ysgol yn cyfrif am 3.1% o'r ymweliadau ag atyniadau; mae'r ganran hon yn codi i 5.9% ar gyfer ymweliadau ag atyniadau bywyd gwyllt, ac yn gostwng i 1.8% ar gyfer ymweliadau ag amgueddfeydd/orielau.
- Derbyniodd atyniadau 54 o archebion grŵp ar gyfartaledd yn 2013. Yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd, cafodd rheilffyrdd/tramffyrdd nifer sylweddol uwch o archebion grŵp ar gyfartaledd (262), tra cafodd parciau gwledig nifer is o archebion grŵp na'r cyfartaledd (37).

1. Cyflwyniad

1.1 Cefndir

Mae Croeso Cymru wedi bod yn cynnal yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth ers 1973. Cylch gorchwyl y gwaith ymchwil yw:

- Pennu ac adrodd ar nifer yr ymweliadau ag atyniadau ledled Cymru
- Dadansoddi data a gasglwyd am nifer yr ymweliadau er mwyn nodi tueddiadau cyfredol
- Darparu dadansoddiad cymharol ychwanegol o ddata a geir yn yr Arolwg o Ymweliadau ag Atyniadau Twristiaeth gan gynnwys ffigurau ymweliadau, gweithrediadau, cyllid, refeniw, marchnata ac adnoddau dynol
- Dadansoddi data yn ôl categorïau atyniadau, pedwar rhanbarth economaidd Cymru, a pholisïau tâl mynediad (am ddim ac â thâl).

1.2 Diffiniad o atyniad twristiaeth

Mae'r ymchwil yn defnyddio'r diffiniad o atyniad twristiaeth¹ a gytunwyd gan y pedwar Bwrdd Twristiaeth Cenedlaethol yn arolwg 2001 lle mae atyniad twristiaeth yn:

"...Atyniad lle mae'n ymarferol codi tâl mynediad ar gyfer y perwyl o weld pethau'n unig. Rhaid i'r atyniad fod yn gyrchfan gwibdaith barhaol wedi'i sefydlu, gyda'i brif bwrpas i ganiatáu mynediad i adloniant, diddordeb neu addysg, yn hytrach na bod yn allfa manwerthu neu'n lleoliad yn bennaf neu'n lleoliad ar gyfer perfformiadau chwaraeon, theatr neu ffilm.

Rhaid iddo fod yn agored i'r cyhoedd heb archebu o flaen llaw, am gyfnodau cyhoeddedig o'r flwyddyn, a dylai allu denu ymwelwyr dydd neu dwristiaid yn ogystal â thrigolion lleol. Yn ogystal, rhaid i'r atyniad fod yn un busnes unigol, o dan reolaeth unigol, fel y gall ateb cwestiynau economaidd ar refeniw, cyflogaeth ac ati, a rhaid ei fod yn derbyn refeniw yn uniongyrchol gan yr ymwelwyr."

¹ Mae'r diffiniad hwn yn effeithio ar Ganolfan Mileniwm Cymru, y gellid ei chategoreiddio fel 'safle manwerthu neu leoliad ar gyfer ... perfformiadau ... theatrig' a fyddai'n ei heithrio o'r gwaith ymchwil hwn. Nid yw'r lleoliad yn syrthio'n ddestlus i'r diffiniad uchod ychwaith am nad yw'n 'fusnes unigol, o dan reolaeth unigol' ond mae'n cynnwys theatr, adeilad o bwys pensaernïol, caffis ac orielau celf. Nid yw nifer yr ymwelwyr a gynhwysir yn yr adroddiad hwn ar gyfer Canolfan y Mileniwm yn cynnwys pobl sy'n mynd i'r theatr, nac ymwelwyr y mae diben eu hymweliad yn ymwneud â'r theatr yn bennaf (e.e. gwerthiannau tocynnau/casglu tocynnau ac ati). Am y rheswm hwn, rhestrir Canolfan y Mileniwm yn y tudalennau canlynol ond cydnabyddir nad yw'n bodloni'r diffiniad uchod o atyniad twristiaeth ym mhob ystyr. Rhaid ystyried hyn wrth ei chymharu ag atyniadau eraill.

1.3 Amcanion

Diben yr adroddiad hwn yw monitro tueddiadau yn y sector atyniadau twristiaeth yng Nghymru er mwyn darparu gwell dealltwriaeth o'r sector i sefydliadau diwydiant a sefydliadau sector cyhoeddus a dosbarthu'r canfyddiadau mewn ffordd ddefnyddiol a gwerthfawr i'r diwydiant ehangach.

1.4 Cefndir economaidd a hinsoddol 2013

Mae economi a hinsawdd y DU yn ffactorau allweddol wrth ystyried twristiaeth ddomestig a bydd eu heffaith yn cael ei hadlewyrchu yn y ffigurau yn yr adroddiad hwn.

Crynodeb economaidd 2013

Yn gynnar yn y flwyddyn, roedd dyfalu y byddai'r DU yn profi dirwasgiad am y trydydd tro ond ni chafwyd ail ddirwasgiad yn 2012 wedi'r cyfan a bu cynnydd graddol mewn twf economaidd. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y DU yn un o'r economïau mwyaf a oedd yn tyfu gyflymaf, gan arwain at fwy o ddefnydd a arweiniodd, yn ei dro, at bryderon ynghylch cynnydd mawr ym mhrisiau tai.

Gostyngodd lefelau diweithdra a gwelwyd cynnydd o ddim ond 2.1% mewn chwyddiant. Fodd bynnag, arhosodd lefelau cyflogau yn ddigyfnewid ar y cyfan. Felly, parhaodd y materion a effeithiodd ar gartrefi mewn blynyddoedd blaenorol (fel prisiau tanwydd uchel, cynnydd ym mhrisiau bwyd a'r cynnydd cyffredinol mewn costau byw) i effeithio ar y rhan fwyaf o drigolion y DU. Felly, roedd apêl gwyliau gartref, neu 'staycation', yn parhau'n gryf, gyda chymorth gwaith hyrwyddo yn y cyfryngau.

Crynodeb o hinsawdd 2013

Cafwyd rhai digwyddiadau tywydd sylweddol ledled y DU yn 2013, gan gynnwys gwanwyn eithriadol o oer (yr oeraf ers 1962), a effeithiodd ar fasnach yn ystod cyfnod y Pasg. I'r gwrthwyneb, roedd yr haf yn eithriadol o boeth, gyda'r gwres mawr ym mis Gorffennaf yn wrthgyferbyniad amlwg â'r hafau gwael a gafwyd rhwng 2007 a 2012.

Er bod lefelau glawiad yn cymharu â blynyddoedd eraill ar y cyfan, cafwyd mwy o law na'r cyfartaledd ym misoedd Mai, Hydref a Rhagfyr. Cymru oedd yr ardal wlypaf yn y DU yn 2013, a mis Rhagfyr oedd un o'r misoedd gwlypaf ers i gofnodion ddechrau cael eu cadw.

2. Methodoleg

2.1 Cynnal y gwaith ymchwil

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil mewn dau gam, yn dibynnu ar p'un a oedd gan yr atyniad amseroedd agor tymhorol (cynnar) neu p'un a oedd ar agor drwy gydol y flwyddyn (hwyr). Anfonwyd deunydd drwy'r post at gyfanswm o 94 o atyniadau 'cynnar' ym mis Tachwedd 2013, ac anfonwyd nodyn atgoffa at y rhai nad oeddent wedi ymateb bythefnos yn ddiweddarach. Ar gyfer atyniadau 'hwyr', anfonwyd y deunydd ym mis Ionawr 2014 (333 o atyniadau), ac anfonwyd nodyn atgoffa at y rhai nad oeddent wedi ymateb bythefnos yn ddiweddarach.

Yn ogystal â hyn, aeth Croeso Cymru ati i geisio hybu ymatebion drwy gysylltu ag Awdurdodau Lleol, Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chadw i gael ffigurau ymwelwyr.

Anfonwyd deunydd yr arolwg yn yr iaith/ieithoedd dewisol naill ai dros e-bost neu drwy'r post. Os gofynnwyd am arolwg drwy'r post, rhoddwyd amlen ragdaleidig i'r ymatebydd i'w defnyddio i ddychwelyd yr arolwg wedi'i gwblhau.

Daeth yr arolwg i ben ym mis Mawrth 2014 a chafodd data'r ymatebion ei gofnodi'n ddiweddarach.

Seiliwyd yr holiadur ar yr un a ddefnyddiwyd mewn blynyddoedd blaenorol er mwyn sicrhau bod modd cymharu data a monitro tueddiadau.

2.2 Dosbarthu'r arolwg a chyfraddau ymateb

Dosbarthwyd yr arolwg i gyfanswm o 429 o atyniadau y credwyd eu bod yn gweddu i'r diffiniad o atyniad twristiaeth: dim ond 3 atyniad yn llai nag yn 2012. Rhoddir y cyfraddau ymateb ar gyfer eleni a'r ddwy flynedd flaenorol yn Nhabl 2.1 isod:

Tabl 2.1: Cyfradd ymateb

	2013	2012	2011
Cyfanswm yr atyniadau a dargedwyd	429	432	478
Atyniadau a gwblhaodd yr arolwg	173 (40%)	190 (44%)	216 (45%)
Atyniadau nad oedd modd iddynt ddarparu ffigurau	10 (3%)	25 (6%)	29 (6%)
CYFANSWM Y GYFRADD YMATEB	183 (43%)	215 (50%)	245 (51%)

Felly, er bod yr ymateb i'r arolwg eleni yn 43%, y gyfran a ddarparodd ffigurau ymwelwyr mewn gwirionedd oedd 40% (gostyngiad o 4% o gymharu â'r gyfradd ymateb yn 2012).

At hynny, er mwyn canfod pa mor ddibynadwy oedd y ffigurau ymweliadau a ddarparwyd, yn 2013 nododd 133 o weithredwyr y dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt i gyfrifo'u ffigurau ymwelwyr: dangosir y canlyniadau yn Nhabl 2.2 isod. Mae'r ffigurau gyda'i gilydd yn dod i fwy na 100% gan fod rhai atyniadau yn sôn am ddulliau lluosog.

Tabl 2.2: Nifer yr ymwelwyr - dull cofnodi

Dull a ddefnyddiwyd	Nifer yr atyniadau	% yr atyniadau a ddarparodd ddata
Gwerthiant tocynnau a/neu archebion grŵp	47	35.3%
Dull cyfrif â llaw	39	29.3%
Dull mecanyddol / electronig o gyfrif	31	23.3%
Amcangyfrif a wnaed ar sail cyfrif sampl	5*	4.8%
Arall **	11	8.3%

Sylfaen: Cyfanswm o 133 o atyniadau yn darparu data ar ddulliau cyfrif

** Ymhlith y dulliau eraill mae data yn seiliedig ar drosiant a llyfrau ymwelwyr

3. Y deg atyniad uchaf am ddim ac â thâl

3.1 Y deg atyniad uchaf â thâl

Yr atyniad â thâl a gofnododd y nifer fwyaf o ymwelwyr yn 2013 oedd The LC yn Ne-orllewin Cymru (712,616 o ymwelwyr). Hwn oedd yr atyniad â thâl a gafodd y nifer fwyaf o ymweliadau yn 2012 hefyd, er bod nifer yr ymwelwyr wedi gostwng 3.3% yn 2013 o gymharu â 2012.

Ni chafwyd data gan ddau o'r deg atyniad â thâl uchaf (Folly Farm a'r Sw Fynydd Gymreig / y Gerddi Botaneg) yn 2012, felly ni ellir nodi newidiadau o ran nifer yr ymwelwyr - gweler Tabl 3.1 isod am ragor o fanylion.

Tabl 3.1: Y deg atyniad uchaf â thâl 2013

Enw	Rhanbarth	Categori	Perchennog	Lleoliad	Nifer yr ymweliadau 2013	Nifer yr ymweliadau 2012	2013 o gymharu â 2012	£ Oedolyn	
1	The LC	SW	THEMA	PO	C	712,616	736,949	-3.3%	Ni ddarparwyd
2	Parc Antur Folly Farm	SW	WL	PO	R	419,614	Ni ddarparwyd	-	£9.50
3	Portmeirion	M	MAG	PO	R	193,240	195,276	-1.0%	£10.00
4	Parc Gwledig Margam	SW	CP	LA	R	182,055	105,329	+72.8%	Ni ddarparwyd
5	Castell Conwy	N	HP	Cadw	C	174,920	162,665	+7.5%	Ni ddarparwyd
6	Tramffordd y Gogarth	N	R/T	LA	C	169,943	153,004	+11.1%	£6.00
7	Castell Caernarfon	N	HP	Cadw	C	163,394	176,454	-7.4%	Ni ddarparwyd
8	Y Sw Fynydd Gymreig a'r Gerddi Botaneg	N	WL	PO	U	135,729	Ni ddarparwyd	-	£10.95
9	Parc Coedwig y Gelli Gyffwrdd	N	IND	PO	R	134,832	110,198	+22.4%	£10.95
10	Castell Caerffili	SE	HP	LA	U	110,687	120,273	-8.0%	Ni ddarparwyd

3.2 Y deg atyniad am ddim uchaf

Ychydig iawn o newid a welwyd yn y deg atyniad am ddim uchaf (yn ôl nifer yr ymwelwyr) ers 2012: Canolfan Mileniwm Cymru yw'r lleoliad yr ymwelir ag ef fwyaf, er bod nifer yr ymwelwyr wedi gostwng 3.7% eleni o gymharu â 2012.

Sain Ffagan ac Amgueddfa Castell Cyfarthfa yw'r ail a'r trydydd atyniad am ddim mwyaf poblogaidd, fel yn 2012 - gweler Tabl 3.2 isod am ragor o fanylion.

Tabl 3.2: Y deg atyniad am ddim uchaf yn 2013 (r)

Enw	Rhanbarth	Categori	Perchennog	Lleoliad	Nifer yr ymweliadau 2013	Nifer yr ymweliadau 2012	2013 o gymharu â 2012	
1	Canolfan Mileniwm Cymru	SE	MAG	PO	U	1,102,520	1,144,628	-3.7%
2	Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru	SE	MAG	G	U	544,966	615,855	-11.5%
3	Amgueddfa Castell Cyfarthfa	SE	MAG	LA	U	524,789	545,006	-3.7%
4	Amgueddfa Genedlaethol Cymru	SE	MAG	G	U	456,342	459,806	-0.8%
5	Parc Gwledig Pen-bre	SW	CP	LA	C	367,172	388,416	-5.5%
6	Prosiect Amgueddfa Caerdydd	SE	MAG	LA	U	260,172	167,413	+55.4%
7	Ffordd Goedwig a Chanolfan Ymwelwyr Cwmcarn	SE	CP	PO	R	257,539	203,662	+26.5%
8	Eglwys Gadeiriol Tyddewi	SW	HP	PO	C	255,000	258,000	-1.2%
8	Amgueddfa Genedlaethol y Glannau	SW	MG	G	U	253,708	267,362	-5.1%
9	Parc Gwledig Llynnoedd Cosmeston	SE	CP	LA	U	245,000	250,000	-2.0%

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

4. Dadansoddiad cymharol o ymweliadau ag atyniadau twristiaeth 2013 / 2012

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn edrych ar dueddiadau yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru, gan gymharu ffigurau ymweliadau ar gyfer 2013 a 2012. Dim ond â'r atyniadau hynny a ddarparodd ddata ar gyfer y ddwy flwyddyn y mae a wnelo'r adran hon.

4.1 Cymariaethau cyffredinol

Ymhlith yr atyniadau hynny a ymatebodd i'r arolwg yn y ddwy flwyddyn (cyfanswm o 134), cynyddodd nifer yr ymweliadau gan 0.4% rhwng 2012 a 2013 - gweler Tabl 4.1 isod.

Tabl 4.1: Cymharu ffigurau ymweliadau blynyddol cyffredinol 2013 / 2012 (r)

Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2013	Nifer yr ymweliadau 2012	Newid canrannol
134	10,889,870	10,850,897	+0.4%

Sylfaen: atyniadau a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012 (134)

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

O ddadansoddi'r data yn fanylach; er i nifer yr ymweliadau ag atyniadau ostwng 4.6% rhwng 2012 a 2013, gwelwyd cynnydd o 18.5% yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau am ddim - gweler Tabl 4.2 isod.

Tabl 4.2: Cymharu ffigurau ymweliadau blynyddol cyffredinol 2013 /2012 yn ôl y math o fynediad (r)

Math o fynediad	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2013	Nifer yr ymweliadau 2012	Newid canrannol
Am ddim	58	2,754,895	2,325,076	+18.5%
Â thâl	76	8,134,885	8,525,821	-4.6%
CYFANSWM	134	10,889,870	10,850,897	+0.4%

Sylfaen: atyniadau a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012 (134)

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

Gwelodd Gogledd Cymru a De Orllewin Cymru gynnydd yn nifer yr ymweliadau ag atyniadau (rhai â thâl a rhad ac am ddim) cynyddu yn 2013 o gymharu â 2012 (+1.4% a +1.3% yn y drefn honno). Mewn rhanbarthau eraill, gostyngodd nifer yr ymwelwyr - gweler Tabl 4.3 isod.

Tabl 4.3: Cymharu ffigurau ymweliadau blynyddol cyffredinol 2013 / 2012 yn ôl rhanbarth yng Nghymru (r)

Rhanbarth yng Nghymru	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2013	Nifer yr ymweliadau 2012	Newid canrannol
Canolbarth	22	590,578	597,598	-1.2%
Gogledd	40	3,045,982	3,004,114	+1.4%
De-ddwyrain	36	4,614,234	4,644,444	-0.7%
De-orllewin	36	2,639,076	2,604,741	+1.3%
CYFANSWM	134	10,889,870	10,850,897	+0.4%

Sylfaen: atyniadau a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012 (134)

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

Gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymweliadau â pharciau gwledig (+11.2%), atyniadau bywyd gwyllt (+5.4%) a rheilffyrdd / tramffyrdd (+2.9%) rhwng 2012 a 2013.

Gwelwyd lleihad yn nifer yr ymweliadau â phob math arall o atyniad, yn fwyaf amlwg ymhlith atyniadau diwydiannol / crefft (21.0%), er y dylid trin y ffigur hwn yn ofalus oherwydd y sylfaen fach (wyth atyniad) - gweler Tabl 4.4. isod.

Tabl 4.4: Cymharu ffigurau ymwelwyr blynyddol cyffredinol 2013/ 2012 yn ôl y categori o atyniad (r)

Categori'r atyniad	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2013	Nifer yr ymweliadau 2012	Newid canrannol
Eiddo hanesyddol	47	2,310,851	2,328,270	-0.7%
Amgueddfa / oriel gelf	42	4,554,077	4,656,715	-2.2%
Atyniad diwydiannol / crefft	8*	310,601	393,191	-21.0%
Parc gwledig / gardd / atyniad naturiol arall	26	2,464,417	2,215,591	+11.2%
Atyniad bywyd gwyllt	5*	93,567	88,748	+5.4%
Atyniad thema / parc / canolfan hamdden	1*	712,616	736,949	-3.3%
Rheilffordd / tramffordd	5*	443,741	431,433	+2.9%
CYFANSWM	134	10,889,870	10,850,897	+0.4%

Sylfaen: atyniadau a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012

DS SYLFEINI BACH IAWN

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

O edrych ar y data yn ôl perchenogaeth, gellir gweld bod nifer yr ymweliadau â phob math o berchennog, ac eithrio Cadw, wedi lleihau rhwng 2012 a 2013. Gwelir y lleihad mwyaf ar gyfer atyniadau dan berchenogaeth Awdurdodau Lleol (8.9%).

Gwelwyd cynnydd bach o 0.7% yn nifer yr ymweliadau â safleoedd Cadw rhwng 2012 a 2013 - gweler Tabl 4.5 isod.

Tabl 4.5: Cymharu ffigurau ymwelwyr blynyddol cyffredinol 2013 / 2012 yn ôl perchenogaeth (r)

Perchenogaeth	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2013	Nifer yr ymweliadau 2012	Newid canrannol
Cadw	26	1,060,921	1,053,907	+0.7%
Llywodraeth	7*	1,648,790	1,739,855	-5.2%
Awdurdod Lleol	35	3,256,331	2,989,976	-8.9%
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	15	971,389	1,000,802	-2.9%
Perchennog preifat / ymddiriedolaeth	51	3,952,439	4,066,357	-2.8%
CYFANSWM	134	10,889,870	10,850,897	+0.4%

Sylfaen: atyniadau a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012

DS SYLFEINI BACH IAWN

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

4.2 Cymharu ymweliadau misol 2013 / 2012

O edrych ar gyfran yr ymweliadau ar gyfer pob mis yn 2012 a 2013, gellir gweld na fu unrhyw newid bron yn nosbarthiad ymweliadau ar draws y flwyddyn. Fel y gellir disgwyl, ym mis Gorffennaf (13.0%) a mis Awst (16.0%) y gwelwyd y gyfran fwyaf o ymweliadau ag atyniadau yn 2013 (fel yn 2012) - gweler Tabl 4.6 isod.

Tabl 4.6: Dosbarthiad misol o ymweliadau 2013 / 2012 (r)


Mis	% yr ymweliadau 2013	% yr ymweliadau 2012
Ionawr	3.8%	3.8%
Chwefror	5.4%	5.5%
Mawrth	7.0%	6.5%
Ebrill	9.1%	9.6%
Mai	10.8%	9.1%
Mehefin	9.4%	10.7%
Gorffennaf	13.0%	13.1%
Awst	16.0%	15.5%
Medi	8.6%	9.5%
Hydref	7.9%	7.6%
Tachwedd	5.0%	5.1%
Rhagfyr	4.0%	4.1%

Sylfaen: pob atyniad a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012 (134)

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

Mae Ffigur 4.6a drosodd yn rhoi darlun gweledol o'r data uchod, ac yn dangos yn glir y cyfnod brig o ran nifer yr ymwelwyr yn ystod misoedd Awst 2013 a 2012.

Ffigur 4.6a: Siart o ddsbarthiad misol ymweliadau 2013 / 2012



Sylfaen: pob atyniad a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012 (134)

Fel y gwelwyd yn 2012, mae dosbarthiad mwy cyson o ymweliadau ag atyniadau am ddim yn ystod y flwyddyn o gymharu ag atyniadau â thâl, er bod effaith dymhorol i'w gweld o hyd. Cafwyd y nifer leiaf o ymweliadau ag atyniadau am ddim ym mis Ionawr a mis Rhagfyr a'r nifer fwyaf o ymweliadau ym mis Gorffennaf a mis Awst. Er bod y gwahaniaethau hyn yn gyson â'r cyfnodau brig a'r cyfnodau tawel a welwyd ar gyfer atyniadau â thâl, mae'r gwahaniaethau ychydig yn llai amlwg ar gyfer atyniadau am ddim - gweler Tabl 4.7 isod.

Tabl 4.7: Dosbarthiad misol o ymweliadau 2013 / 2012 yn ôl y math o fynediad (r)


Mis	% yr ymweliadau - am ddim		% yr ymweliadau - â thâl	
	2013	2012	2013	2012
Ionawr	4.2%	4.1%	3.0%	3.1%
Chwefror	5.8%	6.1%	4.4%	4.2%
Mawrth	7.5%	7.0%	5.8%	5.5%
Ebrill	9.2%	9.5%	8.8%	9.9%
Mai	10.6%	9.2%	11.1%	9.0%
Mehefin	9.1%	10.2%	10.1%	11.6%
Gorffennaf	12.6%	12.6%	14.1%	14.1%
Awst	14.3%	14.0%	20.2%	18.8%
Medi	8.5%	9.5%	8.8%	9.4%
Hydref	8.2%	7.8%	7.2%	7.3%
Tachwedd	5.5%	5.5%	3.7%	4.1%
Rhagfyr	4.5%	4.6%	2.9%	3.0%

Sylfaen: atyniadau a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012 - am ddim (58); â thâl (76)

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

Unwaith eto, mae Ffigur 4.47a drosodd yn rhoi darlun gweledol o'r data uchod, ac yn dangos y cyfnod mwy prysur o ran nifer yr ymweliadau ag atyniadau â thâl yn ystod mis Awst o gymharu ag atyniadau am ddim.

Ffigur 4.7a: Siart o ddosbarthiad misol ymweliadau 2013 / 2012 yn ôl y math o fynediad



4.3 Cymharu ymweliadau chwarterol 2013 / 2012

Mae Tabl 4.8 isod yn dangos y cyfnod brig o ran nifer yr ymweliadau yn ystod Chwarter 3 2013 a 2012. O gymharu'r ffigurau o flwyddyn i flwyddyn, gellir gweld bod cynnydd bach yn nifer yr ymweliadau yn Ch1 2013 o gymharu â 2012, tra bod lleihad bach yn Ch3. Roedd nifer yr ymweliadau yn Ch2 a Ch4 yn eithaf cyson rhwng y ddwy flwyddyn.

Tabl 4.8: Dosbarthiad chwarterol o ymweliadau 2013 / 2012 (r)

Chwarter		% yr ymweliadau 2013	% yr ymweliadau 2012
Ch1	Ionawr - Mawrth	16.1%	15.7%
Ch2	Ebrill - Mehefin	29.3%	29.4%
Ch3	Gorffennaf - Medi	37.8%	38.0%
Ch4	Hydref - Rhagfyr	16.8%	16.7%

Sylfaen: pob atyniad a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012 (134)

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

Roedd dosbarthiad chwarterol yr ymweliadau ag atyniadau yn Ne Cymru (y De-orllewin a'r De-ddwyrain) yn eithaf cyson yn 2013. At hynny, gwelwyd yr amrywiad lleiaf yn nifer yr ymweliadau ar draws y pedwar chwarter yn y ddau ranbarth hyn.

Yng Nghanolbarth Cymru y gwelwyd yr amrywiad mwyaf o ran ymweliadau ag atyniadau ar draws y flwyddyn, gydag ymweliadau yn Ch1 yn cyfrif am 7.4% yn unig o'r holl ymweliadau blynyddol (sy'n is nag ar gyfer yr holl ranbarthau eraill yng Nghymru). Mae'r patrwm hwn o ymweliadau yn debyg iawn i'r hyn a welwyd yn 2012 - gweler Tabl 4.9 isod.

Tabl 4.9: Dosbarthiad chwarterol o ymweliadau 2013 / 2012 yn ôl rhanbarth yng Nghymru (r)

Rhanbarth yng Nghymru	Sylfaen	% yr ymweliadau 2013				% yr ymweliadau 2012				Cyfanswm yr ymweliadau	
		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	2013	2012
Canolbarth	22	7.4%	32.0%	49.0%	11.5%	6.8%	33.5%	47.4%	12.3%	590,578	597,598
Gogledd	40	11.3%	31.1%	43.5%	14.1%	12.1%	31.1%	41.5%	15.3%	3,045,982	3,004,114
De-ddwyrain	36	19.2%	28.1%	33.5%	19.3%	18.2%	28.6%	35.4%	17.8%	4,614,234	4,644,444
De-orllewin	36	18.5%	28.6%	36.0%	17.0%	18.0%	27.8%	36.4%	17.7%	2,639,076	2,604,741
CYFANSWM	134	16.1%	29.3%	37.8%	16.8%	15.7%	29.4%	38.0%	16.7%	10,889,870	10,850,897

Sylfaen: pob atyniad a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012 (134)

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

Mae atyniadau thema yn apelio at ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn. Roedd nifer yr ymwelwyr ag amgueddfeydd, parciau gwledig ac atyniadau bywyd gwylt yn eithaf cyson ym mhob chwarter er, yn gyson â chanfyddiadau cynharach, Ch1 a Ch4 oedd y chwarteri arafach a Ch3 oedd yr un prysuraf.

Y ddau fath o atyniad sydd fwyaf agored i amrywiadau tymhorol yw atyniadau diwydiannol/crefft a rheilffyrdd/tramffyrdd. Ar gyfer y ddau fath hyn o atyniadau, roedd cyfrannau sylweddol uwch o ymweliadau yn Ch3 o gymharu â chwarteri eraill (49.4% ar gyfer atyniadau diwydiannol; 56.1% ar gyfer rheilffyrdd/tramffyrdd. At hynny, Ch1 oedd y chwarter arafach, gan gyfrif am gyfrannau cymharol fach o ymwelwyr (8.8% ar gyfer atyniadau diwydiannol; dim ond 2.8% ar gyfer rheilffyrdd/tramffyrdd) – gweler Tabl 4.10 isod.

Tabl 4.10: Dosbarthiad chwarterol o ymweliadau 2013 / 2012 yn ôl categori o atyniad (r)

Categori'r atyniad	Sylfaen	% yr ymweliadau 2013				% yr ymweliadau 2012				Cyfanswm yr ymweliadau	
		Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	2013	2012
Eiddo hanesyddol	47	10.5%	30.7%	44.5%	14.3%	9.5%	32.6%	42.8%	15.1%	2,310,851	2,328,270
Amgueddfa / oriel gelf	42	18.6%	27.4%	34.8%	19.2%	19.1%	27.2%	35.6%	18.1%	4,554,077	4,656,715
Atyniad diwydiannol / crefft	8*	8.8%	30.4%	49.4%	11.3%	9.0%	29.9%	47.5%	13.6%	310,601	393,191
Parc gwledig / gardd / atyniad naturiol arall	26	17.6%	31.8%	34.7%	15.9%	16.0%	31.1%	36.6%	16.3%	2,464,417	2,215,591
Atyniad bywyd gwylt	5*	17.6%	29.3%	37.8%	15.2%	17.2%	28.3%	39.4%	15.1%	93,567	88,748
Atyniad thema / parc / canolfan hamdden	1*	25.5%	25.6%	28.9%	20.1%	22.8%	26.7%	30.6%	19.8%	712,616	736,949
Rheilffordd / tramffordd	5*	2.8%	32.9%	56.1%	8.3%	2.5%	34.5%	53.2%	9.7%	443,741	431,433
CYFANSWM	134	16.1%	29.3%	37.8%	16.8%	15.7%	29.4%	38.0%	16.7%	10,889,870	10,850,897

Sylfaen: pob atyniad a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012 (134)

DS SYLFEINI BACH IAWN

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

4.4 Cymharu taliadau mynediad ar gyfer atyniadau â thâl

Gwelwyd cynnydd bach yn y taliadau mynediad i oedolion ar gyfer atyniadau â thâl yn 2013, o £7.05 ar gyfartaledd yn 2012 i £7.25 (cynnydd o 2.8%). Ni fu fawr o newid yn y taliadau mynediad cyfartalog i blant - gweler Tabl 4.11 isod.

Tabl 4.11: Cymharu taliadau mynediad cyfartalog i oedolion a phlant (fesul atyniad â thâl) 2013 / 2012

Tâl mynediad cyfartalog	£ 2013	£ 2012	Newid
Oedolyn	£7.25	£7.05	+2.8%
Plentyn	£4.14	£4.13	+0.2%

Sylfaen: pob atyniad â thâl a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012 (22)

Yn y DU, 2.1% oedd y gyfradd chwyddiant gyfartalog yn 2013 (gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Manwerthu). Felly, mae'r cynnydd mewn taliadau mynediad i oedolion yn cynrychioli cynnydd uwch na chwyddiant ar gyfer atyniadau yng Nghymru.

Ni fu fawr o newid yn nosbarthiad taliadau mynediad yn ôl ystod y taliadau mynediad yn 2013 o gymharu â 2012. Mae Tabl 4.12 isod yn dangos bod y gyfran uchaf o atyniadau â thâl yn disgyn i'r categori £8.00 a throsodd er, dylid nodi bod y ffigurau hyn yn seiliedig ar sampl fach (22) a dylid felly eu trin yn ofalus.

Tabl 4.12: Dosbarthiad taliadau mynediad i oedolion yn ôl ystod 2013 / 2012

Tâl mynediad cyfartalog	£ 2013	£ 2012
Llai na £1.00	0.0%	0.0%
£1.01 - £1.99	4.5%	4.5%
£2.00 - £2.99	4.5%	4.5%
£3.00 - £3.99	9.1%	9.1%
£4.00 - £4.99	13.6%	13.6%
£5.00 - £5.99	18.2%	18.2%
£6.00 - £6.99	18.2%	18.2%
£7.00 - £7.99	4.5%	4.5%
£8.00 a throsodd	27.3%	27.3%

Sylfaen: pob atyniad a ddarparodd ddata yn 2013 a 2012 (22)

5. Ymweliadau 2013

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o ddata ymweliadau ar gyfer 2013.

Noder: nid yw maint pob sylfaen yr un fath gan na chwblhaodd pob ymatebydd pob rhan o'r holiadur. Mae'r rhai **na** chwblhaodd y rhannau perthnasol wedi'u hepgor o'r tablau, **ond maent wedi'u cynnwys** mewn manau eraill lle y darparwyd data ganddynt.

Roedd ymweliadau ag atyniadau am ddim yn cyfrif am ddwy ran o dair (66.7%) o'r holl ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru yn 2013, tra bod ymweliadau ag atyniadau â thâl yn cyfrif am draean (33.3%). Yn 2012, roedd nifer yr ymweliadau ac atyniadau am ddim yn fwy cyson â nifer yr ymweliadau ag atyniadau â thâl (53.5% o gymharu â 46.5% yn y drefn honno) - gweler Tabl 5.1 isod.

Tabl 5.1: Ymweliadau cyffredinol 2013 yn ôl y math o fynediad (r)

Math o fynediad	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2013	% yr ymweliadau
Am ddim	100	8,613,579	66.7%
Â thâl	73	4,302,127	33.3%
CYFANSWM	173	12,915,706	100.0%

Sylfaen: atyniadau a ddarparodd ddata yn 2013 (173)

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

Yn gyffredinol, atyniadau yn Ne-ddwyrain Cymru gafodd y nifer fwyaf o ymweliadau yn 2013 (38.6% o'r cyfanswm), wedi'u dilyn yn agos gan Ogledd Cymru (30.9%). Er bod ymweliadau ag atyniadau yn Ne-orllewin Cymru yn cyfrif am 24.1% o'r holl ymweliadau, dim ond 6.2% o'r ymweliadau hynny a gafodd atyniadau yng Nghanolbarth Cymru.

Gan ganolbwyntio ar De-ddwyrain Cymru, roedd ymweliadau ag atyniadau am ddim yn cyfrif am 49.9% o'r holl ymweliadau am ddim, tra bod ymweliadau ag atyniadau â thâl yn cyfrif am 16.2% yn unig o'r holl ymweliadau. Fodd bynnag, yn Ne-orllewin Cymru, roedd 18.2% o'r holl ymweliadau ag atyniadau am ddim yn mynd rhagddynt yn y rhanbarth hwn, o gymharu â 35.8% o'r holl ymweliadau ag atyniadau â thâl - gweler Tabl 5.2 isod.

Tabl 5.2: Ymweliadau cyffredinol 2013 yn ôl y math o fynediad a rhanbarth yng Nghymru (r)

Rhanbarth yng Nghymru	Am ddim			Â thâl			POB UN		
	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2013	%	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2013	%	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2013	%
Canolbarth	16	385,127	4.4%	12	416,302	9.7%	28	801,429	6.2%
Gogledd	30	2,353,566	27.3%	27	1,646,953	38.3%	57	4,000,519	30.9%
De-ddwyrain	29	4,299,451	49.9%	18	698,829	16.2%	47	4,998,280	38.6%
De-orllewin	25	1,575,435	18.2%	16	1,540,043	35.8%	41	3,115,478	24.1%
CYFANSWM	100	8,613,579	66.7%	73	4,302,127	33.3%	173	12,915,706	100.0%

Sylfaen: atyniadau a ddarparodd ddata yn 2013: am ddim (100); â thâl (73)

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

Mae Tabl 5.3 isod yn dangos y berthynas rhwng cyfran yr **atyniadau** ym mhob rhanbarth a chyfran yr **ymweliadau**.

Yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru, mae cyfran yr ymweliadau ag atyniadau yn y rhanbarthau hyn yn adlewyrchu'n fras gyfran yr atyniadau ynddynt:

- Canolbarth Cymru - tua thraean yr atyniadau o gymharu â thraean yr ymweliadau
- De-orllewin Cymru - tua chwarter yr atyniadau o gymharu â chwarter yr ymweliadau.

Fodd bynnag, yng Nghanolbarth a De-ddwyrain Cymru, mae mwy o wahaniaeth rhwng nifer yr atyniadau a nifer yr ymwelwyr. Tra bod Canolbarth Cymru yn cynnwys 16.1% o'r holl atyniadau a ymatebodd i'r arolwg, roedd ymweliadau â'r atyniadau hyn yn cyfrif am 6.2% yn unig o'r holl ymweliadau yn 2013. At hynny, tra bod 27.1% o'r holl atyniadau a ymatebodd i'r arolwg yn Ne-ddwyrain Cymru, roedd ymweliadau â'r atyniadau hyn yn cyfrif am 38.6% o'r holl ymweliadau yn 2013. Caiff hyn ei adlewyrchu yn nifer gyfartalog yr ymweliadau ag atyniadau yn y ddwy ardal hyn (tua 28k yng Nghanolbarth Cymru o gymharu â thua 106k yn Ne-ddwyrain Cymru) - gweler Tabl 5.3 isod.

Tabl 5.3: Cyfran yr atyniadau ac ymweliadau yn ôl rhanbarth yn 2013, ynghyd â nifer yr ymwelwyr ar gyfartaledd yn 2013 a 2012 (samplau gwahanol) (r)

Rhanbarth yng Nghymru	Sylfaen	% yr atyniadau	% yr ymweliadau	Nifer gyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad 2013	Nifer gyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad 2012
Canolbarth	28	16.1%	6.2%	28,622	33,949
Gogledd	57	32.9%	30.9%	70,185	61,926
De-ddwyrain	47	27.1%	38.6%	106,346	117,810
De-orllewin	41	23.6%	24.1%	75,982	62,536
CYFANSWM	173	100.0%	100.0%	74,657	69,977

Sylfaen: atyniadau a ddarparodd ddata: 2013 (173); 2012 (190)

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

Roedd ymweliadau ag amgueddfeydd ac orielau celf yn cyfrif am bron ddau o bob pump o'r holl ymweliadau (37.7%). Roedd cyfran uwch o'r rhain yn ymweliadau ag atyniadau am ddim (51.7% o'r holl ymweliadau am ddim) o gymharu ag ymweliadau â thâl (9.4% o'r holl ymweliadau â thâl).

Roedd ymweliadau â pharciau gwledig yn cyfrif am 22.4% o'r holl ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru yn 2013. Unwaith eto, roedd cyfran uwch o'r rhain yn ymweliadau ag atyniadau am ddim (28.5% o'r holl ymweliadau am ddim) o gymharu ag ymweliadau â thâl (10.0% o'r holl ymweliadau â thâl).

Mae Tabl 5.4 isod yn rhoi mwy o fanylion am nifer yr ymweliadau ag atyniadau am ddim ac atyniadau â thâl, yn ôl y math o atyniad.

Tabl 5.4: Ymweliadau cyffredinol yn ôl y math o fynediad a chategori o atyniad 2013

Categori'r atyniad	Am ddim			Â thâl			Pob un		
	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2013	%	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2013	%	Sylfaen	Nifer yr ymweliadau 2013	%
Eiddo hanesyddol	21	1,430,402	16.6%	33	1,328,833	30.9%	54	2,520,010	21.4%
Amgueddfa / oriel gelf	44	4,460,891	51.7%	10	405,298	9.4%	54	4,866,189	37.7%
Atyniad diwydiannol / crefft	5*	111,303	1.2%	9	384,850	8.9%	14	496,153	3.8%
Parc gwledig / gardd / atyniad naturiol arall	24	2,457,384	28.5%	10	431,048	10.0%	34	2,888,432	22.4%
Atyniad bywyd gwylt	3*	65,598	0.7%	5	618,928	14.4%	8	684,526	5.3%
Atyniad thema / parc / canolfan hamdden	Ddim yn berthnasol			1	712,616	16.4%	1	712,616	5.5%
Rheilffordd / tramffordd	3*	88,001	1.0%	5	420,554	9.8%	8	508,555	3.9%
CYFANSWM	100	8,613,579	66.7%	73	4,302,127	33.3%	173	12,915,706	100.0%

Sylfaen: atyniadau a ddarparodd ddata yn 2013: am ddim (100); â thâl (73)

DS SYLFEINI BACH IAWN

Diwygiedig ar 23 Medi, 2014

Mae Tabl 5.5 isod yn dangos cyfrannau cymharol yr **atyniadau** a ymatebodd i'r arolwg yn 2013 o gymharu â chyfran gymharol yr **ymweliadau**, yn ôl categorïau atyniadau.

Er bod amgueddfeydd ac orielau celf yn cyfrif am 31.2% o'r holl atyniadau, roedd nifer yr ymweliadau â'r mathau hyn o atyniad yn cyfrif am 37.7% o'r holl ymweliadau yn 2013. Ac er bod eiddo hanesyddol hefyd yn cyfrif am 31.2% o'r atyniadau, cafodd yr eiddo hwn gyfran gymharol lai o'r holl ymweliadau, sef 21.4%.

Roedd atyniadau thema (dim ond 0.6% o'r sampl) yn cyfrif am 5.5% o'r holl ymweliadau ag atyniadau yng Nghymru yn 2013 - gweler Tabl 5.5 isod.

Tabl 5.5: Cyfran yr atyniadau ac ymweliadau yn ôl categorïau atyniadau 2013, yn ogystal â niferoedd ymwelwyr cyfartalog 2013 a 2012 (samplau gwahanol) (r)

Categori'r atyniad	Sylfaen	% yr atyniadau	% yr ymweliadau	Nifer gyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad 2013	Nifer gyfartalog yr ymweliadau fesul atyniad 2012
Eiddo hanesyddol	54	31.2%	21.4%	51,097	50,148
Amgueddfa / oriel gelf	54	31.2%	37.7%	90,115	81,490
